

Axitinib i drin carcinoma celloedd arenol datblygedig yn dilyn methiant triniaeth arall

25 Chwefror 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir [axitinib](#) (a elwir hefyd yn Inlyta). Mae'n driniaeth bosibl i oedolion sydd â [carcinoma celloedd arenol datblygedig](#) pan nad yw cyffuriau a elwir yn atalyddion tyrosine kinase neu cytokines wedi gweithio.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych garsinoma celloedd arenol datblygedig, a bod eich meddyg yn credu mai axitinib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG os nad yw cyffuriau a elwir yn atalyddion tyrosine kinase neu cytokine wedi gweithio. Dylai axitinib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Efallai y gallwch gael triniaeth axitinib ar y GIG os ydych wedi cael math gwahanol o atalydd tyrosine kinase yn gyntaf (hynny yw, nid sunitinib) cyn belled â bod eich meddyg yn cael eich caniatâd ysgrifenedig i'w roi i chi a bod y GIG yn eich ardal yn cytuno i'w ddarparu.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd axitinib oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae carcinoma celloedd arenol yn fath o ganser arenol sy'n dechrau yn leinin y tiwbiau bach sy'n helpu i greu wrin. Pan fydd y clefyd yn ddatblygedig, mae'r tiwmor wedi ymledu y tu mewn i'r aren, a gall fod wedi ymledu y tu allan i'r aren.

Mae Axitinib (a elwir hefyd yn Inlyta) yn rhan o grŵp o gyffuriau a elwir yn atalyddion tyrosine kinase, sy'n atal celloedd canser rhag tyfu ac ymledu, neu'n arafu'r broses honno. Mae cytokines yn helpu'r system imiwnedd i ymosod ar gelloedd canser.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- James Whale Fund for Kidney Cancer, 0330 111 2333, www.jameswhalefund.org
- Kidney Cancer UK, 0844 870 7054, www.kcuk.org
- Kidney Research UK, 0845 300 1499, www.kidneyresearchuk.org
- Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol 0845 601 0209, www.kidney.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-1192-9